# bywydau gwerthfawr

Adolygiad blynyddol Anabledd Dysgu Cymru

Ebrill 2018 i Mawrth 2019




**Creu Cymru sy’n gwerthfawrogi ac yn cynnwys pobl gydag anabledd dysgu o bob oedran**

## Senedd Ieuenctid Cymru

Cefnogi pobl ifanc yn Senedd Ieuenctid gyntaf Cymru

## Love Life

Perthnasoedd a rhywioldeb

## Engage to Change

O leoliadau gwaith gyda thâl i gyflogaeth go iawn

## Ffrindiau Gigiau

Brwydro am eich hawl i fwynhau!

## Tu Mewn

Dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant a digwyddiadau, Hawdd ei Ddeall Cymru, cefnogi rhieni ag anabledd dysgu, a llawer mwy

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon croesawu | 3 |
| Bywyd Gwerthfawr | 5 |
| Hysbysu | 6 |
| Hawdd ei Ddeall Cymru | 7 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | 8 |
| Engage to Change | 10 |
| Herio a cynrychioli | 12 |
| Ffrindiau Gigiau | 16 |
| Senedd Ieuenctid Cymru | 17 |
| Love Life | 18 |
| Gweithio ar y cyd â rhieni | 18 |
| Ein hymddiriedolwyr, ein haelodau a'n staff | 19 |
| Sut roedden ni'n gwario ein harian | 21 |








## Ein cenhadaeth ydy:

Creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn, person ifanc ac oedolyn gydag anabledd dysgu.

## Ein nodau ydy:

- Cryfhau llais, hawliau a statws plant, pobl ifanc ac oedolion gydag anabledd dysgu
- Gwella gallu rhieni a gofalwyr teulu i wneud cyfraniad cadarnhaol
- Hyrwyddo gwasanaethau wedi'u canoli ar yr unigolyn.

## Cadwch mewn cysylltiad


Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien, Caerdydd
CF14 5GG

Ffôn: 029 2068 1160

enquiries@ldw.org.uk
www.adcymru.org.uk
/learningdisabilitywales
@LdWales



Cwmni cyfyngedig trwy warant: 02326324

Elusen Gofrestredig: 1062858

Rhif Cofrestru TAW:
762 4559 11

**“Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl ag anabledd dysgu a’u teuluoedd yn greadigol i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt”**

## Gair o groeso gan Phil Madden, Cadeirydd ein Bwrdd o Ymddiriedolwyr

**Wrth i mi ysgrifennu hwn mae’n gyfnod o ansicrwydd ac ymrannu mawr. Mae llawer o bobl anabl eisoes yn wynebu tlodi a thoriadau i wasanaethau. Felly mae’n bwysicach nag erioed i weithio gyda’n gilydd.**

Mae pawb yn LDW wedi ymrwymo i gefnogi pobl ag anabledd dysgu a’u teuluoedd yn greadigol i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, i wirioneddol gael eu clywed ac i fod yn ddinasyddion sy’n cyfrannu.

Rydym yn ffodus ac yn ddiolchgar i gael tîm mor dalentog ac ymroddgar o staff. Maen nhw wir yn dîm. Gadawodd Martyn Jones swydd y Prif Weithredwr yn gynharach eleni a dymunwn yn dda iddo. Zoe Richards yw ein Prif Weithredwr Dros Dro, ac rwy’n falch iawn ei bod yn y swydd. Bydd llawer ohonoch chi’n ei hadnabod oherwydd mae hi wedi bod yn aelod pwysig o LDW ers blynyddoedd lawer.

Mae ein hymddiriedolwyr profiadol hefyd wedi gwneud cyfraniad enfawr yn ystod y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at recriwtio ymddiriedolwyr newydd yn y CCB i’n helpu ni i fynd ymhellach.

Mae ein gweithgareddau craidd yn parhau - gan ddylanwadu ar bolisi, rhannu gyda a gwrando ar ein haelodau ac eraill, cynnig hyfforddiant o ansawdd uchel a gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau arloesol.

Bu’n flwyddyn brysur iawn ym mhob un o’r meysydd hyn. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Bywyd Gwerthfawr a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ein harweinyddiaeth o’r prosiect Engage to Change, ein gwasanaeth Hawdd ei Ddeall sy’n tyfu, gyda diolch arbennig i First Choice Housing, y datblygiadau Ffrindiau Gigiau cyffrous.

Rydym wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru o dan y rhaglen Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, ac rydyn ni’n aros am y canlyniad. Rydym hefyd wrthi’n chwilio am ffyrdd eraill o gynyddu ein hamrywiaeth o weithgareddau a ffynonellau incwm.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu ein Cynllun Strategol newydd ac uchelgeisiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd hwn yn cael ei lansio yn y gynhadledd a’r CCB.

**Felly, amseroedd heriol. Ond amseroedd cyffrous. Rydyn ni’n barod!**



**“Rydym yn gweithio’n galed i greu, arloesi a chyd-gynhyrchu’r Gymru orau i bobl ag anableddau dysgu i fyw, i ddysgu ac i weithio”**

## Neges groeso gan Zoe Richards, Prif Weithredwr Dros Dro

**Mae cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol yn adeg i bwyso a mesur a chydnabod cyflawniadau’r sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn bwysicach na hynny gwerthuso’r newid yr ydym wedi’i gyfrannu i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu yn gallu byw bywydau llawn yng Nghymru.**

Mae wedi bod yn gyfnod o ymgynghori, adborth a gosod blaenoriaethau. Wrth i ni symud ymlaen i gyfnod newydd gydag egni newydd a strategaeth glir rydyn ni’n gwybod nad ydym yn sefydliad sydd am sefyll yn ein hunfan.

Mae prosiectau cyffrous fel Bywyd Gwerthfawr, Ffrindiau Gigiau, Engage to Change, Gweithio ar y Cyd gyda Rhieni a Love Life yn cynnig gofod i rannu barn ac yn ein galluogi i estyn allan a chreu partneriaethau newydd lle gwyddom y gallwn wneud newid effeithiol i gefnogi pobl sydd ag anabledd dysgu yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.

Roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhaglen Gwella Bywydau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Rydym yn edrych ymlaen at weithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru ym meysydd y blynyddoedd cynnar, tai newydd â chymorth, gofal cymdeithasol o ansawdd da, gwell gwasanaethau iechyd a helpu pobl i gyrraedd eu potensial, gan gynnwys cael swydd.

Sefydlwyd Senedd Ieuenctid newydd i Gymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru lle cafodd 60 o bobl ifanc eu hethol i fod yn Aelodau Seneddol Ieuenctid i gynrychioli llais pobl ifanc yng Nghymru. Roeddem yn falch iawn o gael ein dewis fel y sefydliad sy’n ethol ac yn cefnogi dau aelod seneddol ifanc anabl.

Gall ansicrwydd ein dyfodol ni i gyd olygu bod y rhai sy’n agored i niwed yn wynebu mwy o risg nag o’r blaen ac mae Anabledd Dysgu Cymru yn gweithio’n galed i greu, arloesi a chyd-gynhyrchu Gymru sy’n rhoi’r lle gorau i bobl ag anabledd dysgu i fyw, dysgu a gweithio.

Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain ac edrychwn ymlaen at ddod â phobl, partneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd i sicrhau bod Cymru’n arweinydd o ran sicrhau bod bywydau pobl ag anabledd dysgu yn llawn.



# Bywyd Gwerthfawr 2016 - 2020

**Mae ein gwaith wedi'i blethu i mewn i weledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i hyrwyddo llesiant, hawliau, amddiffyniad a budd pobl ag anabledd dysgu o'u genedigaeth hyd eu henaint.**

**Fe'n hariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Bywyd Gwerthfawr a thrwy hyn rydyn ni â'r bwriad o wneud gwahaniaeth cadarnhaol trwy ein pedwar maes gwaith:**

Bywyd Gwerthfawr
Valued Lives

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**



## Hysbysu

Cefnogi pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd i gael llais gwybodus, cryfach trwy ddarparu gwasanaeth cyfathrebu llawn gwybodaeth sy'n hawdd ei ddeall.

## Herio a cynrychioli

Sicrhau bod pobl yn clywed lleisiau pobl ag anabledd dysgu ac yn ymateb iddyn nhw.



## Hyfforddiant a digwyddiadau

Creu gweithwyr medrus a gwybodus trwy ddarparu rhaglen hyfforddiant a digwyddiadau cynhwysfawr.



## Arloesi

Sicrhau bod modelau gwasanaeth newydd neu well yn cael eu cyflwyno ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.



# Bywyd Gwerthfawr: **Hysbysu**



**Mae eich helpu i gael llais cryfach, gwybodus yn rhan enfawr o'n gwaith.**

Mewn byd sy'n fwyfwy cysylltiedig yn ddigidol, mae hyn yn golygu diweddariadau dyddiol drwy ein cyfryngau cymdeithasol, a chylchlythyr digidol, Llais Update, sy'n eich cysylltu â'r newyddion diweddaraf ar ein gwefan.

Ond er y gall cyfathrebu digidol fod yn gyflym ac yn amserol, nid yw'n cyrraedd pawb. Mae pobl ag anabledd dysgu yn parhau i fod ymhlith y grwpiau o bobl sy'n cael eu hallgáu fwyaf yn ddigidol mewn cymdeithas, tra bod llawer o ofalwyr teuluol yn methu cysylltu ar-lein yn gyson, neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny o gwbl.

Felly rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd ledled Cymru, gan gynnwys sioeau teithiol, ymgynghoriadau, hyfforddiant, a seminarau, sy'n llywio ac yn ymgynghori ar bolisi newydd ac arferion da.

Ar ben hynny, mae ein cynhadledd flynyddol yn darparu amgylchedd cynhwysol i bawb yn y sector anabledd dysgu ddod ynghyd a gwella maes hanfodol bwysig sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu.

Rydym bob amser yn awyddus i glywed eich barn ar sut rydym yn cyfathrebu â chi. Felly cofiwch gysylltu ag unrhyw adborth neu syniadau sydd gennych chi.

## Gwefan newydd


**Ym mis Hydref fe wnaethom lansio gwefan newydd sbon sy'n haws ei defnyddio ac yn ymatebol ar gyfer ffonau symudol a llechi.**

Erbyn hyn, gallwch archebu a thalu am ein hyfforddiant a'n digwyddiadau yn syml ac yn gyflym ar-lein, ac rydym wedi ei gwneud yn haws i chi bori drwy'r holl gyrsiau fel hyfforddiant mewnol.

Mae ein cylchgrawn Llais poblogaidd bellach ar gael ar-lein, a gallwch ddod o hyd i erthyglau newydd a hen o Lais wedi'u cyhoeddi ar ein blog yn ein hadran newyddion sydd wedi'i gwella.

Rydym hefyd wedi ychwanegu adran adnoddau newydd, ac wedi gwella ein hadran Hawdd ei Ddeall Cymru, er mwyn i chi allu canfod a lawrlwytho'r wybodaeth hygyrch ddiweddaraf yr ydym wedi'i chynhyrchu.





# Hawdd ei Ddeall Cymru

(wedi'i hunan-ariannu)


**Mae gan bobl ag anabledd dysgu hawl i gael gwybodaeth hygyrch er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau gwybodus, dweud eu dweud a chymryd rheolaeth dros eu bywydau.**

Mae ein gwasanaeth hawdd ei ddeall yn helpu i wneud hyn yn bosibl drwy weithio gyda sefydliadau, fel llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, sefydliadau pobl anabl, a'r sector preifat, i sicrhau bod y wybodaeth maen nhw'n ei chynhyrchu yn hygyrch ac yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu.

Rydym yn gwneud hyn drwy gynhyrchu gwybodaeth hawdd ei deall o ansawdd uchel, tra bod ein cyrsiau hawdd eu deall poblogaidd yn hyfforddi staff yn y sefydliadau hyn i feddu ar y sgiliau i gynhyrchu eu gwybodaeth hygyrch o ansawdd eu hunain.

Eleni cynhyrchwyd 43 o ddogfennau ar gyfer 25 o wahanol sefydliadau ledled Cymru, y DU ac Ewrop. Roedd y dogfennau'n cynnwys ymgynghoriadau, taflenni, arolygon, adroddiadau, a thudalennau gwefan hawdd eu deall.







## Llawlyfr Clir a Hawdd

I helpu eraill i gynhyrchu eu deunydd hawdd ei ddeall eu hunain fe wnaethom lunio ein llawlyfr gwybodaeth hygyrch, ffilmiau ategol, a phecyn cymorth Check It! sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan am ddim. Lawrlwythwch 'Clir a Hawdd' a dod o hyd i'n holl waith hawdd ei ddeall yn: www.ldw.org.uk/easy-read-wales.

## Gwiriadau iechyd blynyddol

Buom yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu adnoddau hawdd eu deall ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a meddygon teulu i annog cyfranogiad a phrofiad o archwiliadau iechyd blynyddol.

# Bywyd Gwerthfawr: **Hyfforddiant a Digwyddiadau**



Rydym yn dod â hyfforddwyr arbenigol a hwyluswyr cyffrous i'n digwyddiadau cynhwysol a hygyrch ledled Cymru er mwyn i chi allu ymuno â ni i newid sut mae pobl yn gweithio, yn byw ac yn meddwl.

## Cynhadledd flynyddol: Dyfodol pob un ohonom ni

**Roedd y gynhadledd eleni yn edrych ar sut y gallwn fuddsoddi mewn gwell dyfodol i bobl ag anabledd dysgu drwy newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, a gwneud pethau gwahanol.**

Ymunodd dros 190 o bobl â ni dros ddau ddiwrnod bywiog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai, cyflwyniadau a drama cynhwysol a hygyrch. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd Comisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, yn siarad am hawliau plant, a Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, yn ateb cwestiynau gan ein cynulleidfa.

> **“Cynhadledd wych. Cymysgedd da o gyflwyniadau prif lwyfan a gweithdai. Slotiau cyfranogi cynulleidfa rhagorol, fel y cwis a Theatr Hijinx.”**

> **“Hyfryd cwrdd â chymaint o bobl wybodus ac angerddol. Roedd yr holl bynciau a drafodwyd yn gyfredol ac yn bwysig iawn.”**

## Hyfforddiant

Rydym yn darparu hyfforddiant i'r sector anabledd dysgu drwy ein rhaglen hyfforddiant cyhoeddus a thrwy hyfforddiant mewnol ar amrywiaeth o bynciau, i gyd wedi'u cynllunio i newid sut mae pobl yn gweithio, yn byw ac yn meddwl.

Bu i ni ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys: Gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall; Cyfathrebu effeithiol; Awtistiaeth Cefnogi pobl i fynd ar-lein; Ymwybyddiaeth ofalgar; Iechyd meddwl; Perthnasoedd a Rhywioldeb; Y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid.










## Beth sy'n Bwysig i Mi

Datblygwyd adnoddau hawdd eu deall ac adnoddau hyfforddi i helpu pobl ag anabledd dysgu i ddeall proses asesu a chynllunio gofal y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fel y gallant leisio eu barn yn ystod y broses.  Fe wnaethom recriwtio a briffio grwpiau o hyfforddwyr gydag anabledd dysgu ar draws Cymru, yn barod i gyflwyno sesiynau dysgu i'w cyfoedion yn 2019/20.

## Tu hwnt i dir gwasanaeth

Yn cael eu cynnal yng Ngogledd a De Cymru, a gyda dros 100 o bobl yn mynychu, roedd y digwyddiadau hyn yn edrych ar ddulliau newydd o helpu pobl ag anabledd dysgu i ddatblygu eu bywyd cymdeithasol, gwneud ffrindiau, a chael perthnasoedd.

## Gwella Bywydau, Gwella Ymarfer

Gan weithio gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Cymorth Cymru, cynhaliwyd y gynhadledd undydd hon i lansio canllawiau newydd gan CLlLC: 'Comisiynu llety a chymorth ar gyfer bywyd da i bobl ag anabledd dysgu'.

## Credu ym mhob plentyn

Wedi'i gynnal ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, ymunodd 140 o bobl â ni am y gynhadledd dysgu undydd hon oedd yn edrych ar leihau ymarfer cyfyngol a hyrwyddo Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol.

# Engage to Change

2016 - 2021

Cynorthwyo pobl ifanc 16-25 mlwydd oed ledled Cymru i gael lleoliadau gwaith â thâl sy'n para 6–12 mis.

engagetochange.org.uk

/engagetochangewales

@Engage_2_Change

**Yn nhrydedd flwyddyn y prosiect, mae 120 o bobl ifanc wedi dechrau lleoliadau gwaith â thâl, gan ddatblygu eu sgiliau, eu profiad a'u hyder. Mae 74 o bobl ifanc wedi cael gwaith parhaol ar ôl hynny.**

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn arwain y prosiect partneriaeth hwn, yn rheoli'r gwaith o'i gyflawni ac yn adrodd yn uniongyrchol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n gweinyddu'r cyllid mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Rhoddir cymorth un i un, person-ganolog, a hyfforddiant swydd i gyfranogwyr a chyflogwyr gan ELITE Supported Employment yn ne Cymru, ac Agoriad Cyf yng Ngogledd Cymru. Mae Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan yn bartner gwerthuso i'r prosiect, tra bod Prifysgol Caerdydd yn ymdrin ag ymchwil a gwerthuso.





## Digwyddiadau Dathlu a Gwobrwyo

Ym mis Mehefin bu i ni gynnal dau ddigwyddiad llwyddiannus mewn digwyddiadau yn y Gogledd a'r De yn tynnu sylw at lwyddiant pobl ifanc sydd wedi cael gwaith drwy Engage to Change, yn ogystal â chydnabod cyfraniad cyflogwyr.

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys cyfleoedd i randdeiliaid ddod at ei gilydd ac ymchwilio i'r heriau mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio cael gwaith, a sut y gall y prosiect ddatblygu a gwella i sicrhau bod newid parhaol yn cael ei greu.

## Stori Levi



**Un cyfranogwr y tynnwyd ein sylw ato eleni yw Levi, menyw ifanc ryfeddol sydd wedi goresgyn rhwystrau niferus er mwyn sicrhau cyflogaeth.**

Mae gan Levi anabledd dysgu ysgafn a  chafodd ddiagnosis o awtistiaeth yn y diwedd ar ôl blwyddyn o aros hir. Roedd profiadau digalon gyda chyflogwyr yn peri iddi ofni na fyddai byth yn dod o hyd i gyflogaeth ystyrlon.

Yna ymunodd â'r prosiect Engage to Change a chyfarfod ei hymgynghorydd cyflogaeth, Steve, a drefnodd iddi ymweld â Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin a derbyn swydd yn y sefydliad. O'r diwrnod cyntaf hwnnw, roedd hi wrth ei bodd.

> “Rwy'n caru'r lle hwn. Rwy'n ddiogel yma. Yn ogystal â fy swydd, dyma fy lle diogel. Dwi wrth fy modd yn bod yma ac rydw i mor ddiolchgar fy mod i wedi cael cyfle i ddod yma a datblygu.”

Fel person pobl sydd â llawer iawn o empathi, mae prif ffocws Levi wedi bod ar gefnogi'r gwahanol grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan y sefydliad. Ni allai ei chyflogwr Sarah roi mwy o glod iddi am ei gwaith. “Mae hi'n hyblyg iawn. Bydd hi'n troi ei llaw at unrhyw beth. Beth bynnag mae hi'n ei wneud i'r sefydliad hwn mae hi'n ei wneud gydag ymrwymiad o 110%. “

Mae Levi wedi datblygu ei hyder ac yn teimlo ei bod wedi dod o hyd i'w phwrpas ers i Engage to Change ei chysylltu â Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin a'i chefnogi i weithio yno. “Rwy'n caru'r lle hwn. Rwy'n ddiogel yma. Yn ogystal â fy swydd, dyma fy lle diogel. Dwi wrth fy modd yn bod yma ac rydw i mor ddiolchgar fy mod i wedi cael cyfle i ddod yma a datblygu.”

Mae profiad Levi wedi dangos, gyda'r gefnogaeth briodol, bod cyflogaeth ystyrlon yn gyraeddadwy i bobl fel hi ag anabledd dysgu neu ASD. Mae Levi yn un o lawer sydd â'r gallu i gyflawni eu potensial a chyfrannu'n gadarnhaol at y gweithlu gyda chefnogaeth prosiect fel Engage to Change.




Gallwch weld mwy o straeon a fideos am y bobl ifanc sy'n llwyddo mewn cyflogaeth trwy Engage to Change ar ein gwefan:

www.engagetochange.org.uk

# Bywyd Gwerthfawr: **Herio a Chynrychioli**



Yn ein grwpiau polisi ein hunain ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, rydym yn gweithio i wneud yn siŵr bod llais pobl ag anabledd dysgu yn cael ei glywed a'u bod nhw'n cael ymateb iddo.

## Ein grwpiau polisi

### Grŵp Mynediad at Wasanaethau

Fe wnaethom gynnal dau gyfarfod o'n grŵp Mynediad at Wasanaethau a darparu gwybodaeth a gwaith lobïo ynghylch hawliau i wasanaethau, toriadau i wasanaethau, a diwygio lles.

Mae'r broses asesu Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) yn parhau i achosi heriau i bobl ag anabledd dysgu. Fe wnaethom wyntyllu ein pryderon mewn cyfarfodydd â Capita, y darparwr asesydd ar gyfer PIP, a'r Adran Gwaith a Phensiynau.



### Grŵp Technoleg wedi'i bersonoli

Credwn y gall technoleg helpu'r annibyniaeth, y dewis a'r rheolaeth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mae ein grŵp yn cynnwys pobl a sefydliadau sydd â diddordeb, yn enwedig darparwyr byw â chymorth.

Hyrwyddwyd arloesedd mewn technoleg yn ein cynhadledd flynyddol, wrth i ni gyrchu a hyrwyddo straeon am arfer da, a dechrau cynllunio ar gyfer dwy gynhadledd ranbarthol.

Yn ogystal â hynny, fe wnaethom groesawu 10 o bobl o Awstria ar ymweliad dysgu er mwyn dangos sut mae sefydliadau yng Nghymru yn defnyddio technoleg bersonol i gynyddu annibyniaeth y bobl maen nhw'n eu cefnogi.

# Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

**Fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd, gallwn ddod â materion sylweddol i grŵp eang o randdeiliaid, ac yn bwysicach fyth, Change Makers, er mwyn gwella bywydau pobl anabl yng Nghymru.**

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd yn gweithio ar faterion cydraddoldeb sy'n effeithio ar bob person anabl yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu'r Model Cymdeithasol o Anabledd a'r hawl i Fyw'n Annibynnol.

Caiff ei gadeirio gan Mark Isherwood AC, ac mae'n cynnwys Aelodau Cynulliad o rai o'r prif bleidiau gwleidyddol, yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau yng Nghymru sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl.

Mae ein rôl yn cynnwys rheoli'r cymorth gweinyddol i'r Grŵp Trawsbleidiol, ac rydym yn elwa'n fawr o ymuno â'r Aelodau eraill - Anabledd Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion, Cyngor Cymru i'r Byddar, a Mind Cymru - i greu trafodaeth a darparu trosolwg er mwyn i Aelodau'r Cynulliad gael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n bodoli yng Nghymru heddiw.

Fe wnaethom gynnal pedwar cyfarfod eleni, gan gynnwys un cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant, a'r llall gyda'r Grwpiau Trawsbleidiol ar Dai a Phobl Hŷn.

Hefyd, fe wnaeth y rhai a fynychodd ein cyfarfod yng Ngogledd Cymru gyflwyno ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Weithredu ar Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol.

## Ymateb i bolisi

### Unigrwydd ac arwahanrwydd

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Gan dynnu sylw at bwysigrwydd bywyd cymdeithasol da a pherthnasoedd i bobl ag anabledd dysgu, roeddem yn gallu dangos sut mae ein prosiectau Ffrindiau Gigiau a Love Life yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

### Byw'n annibynnol

Yn ogystal â bod yn rhan o'r grŵp sy'n cynhyrchu'r fframwaith newydd ar fyw'n annibynnol, fe wnaethom ymateb ar ran ein haelodau, ein partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill.




Llun uchod (a staff, tudalen 14 / protest Stay Up Late, tudalen 17) gan Paul Stewart-Davies, PLSS Photography









## Cydweithio ag eraill

**Buom yn gweithio gyda sefydliadau eraill ar grwpiau polisi a oedd yn cynnwys:**

- **Grŵp Gofal Diwedd Oes Marie Curie**. Datblygodd y prosiect hwn waith newydd, gan gynnwys adnoddau hawdd eu deall, sy'n gwella mynediad at wasanaethau gofal diwedd oes i bobl ag anabledd dysgu.
- **Grŵp Byw â Chefnogaeth Cymorth**. Buom yn gweithio gyda darparwyr byw â chymorth i edrych ar faterion comisiynu a darparu, yn arbennig sut i dalu costau dyfarniadau cysgu-i-mewn a'r Cyflog Byw Cenedlaethol.
- **Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol**. Buom yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a chynnal y Gynhadledd Gwella Bywyd, Gwella Arferion, lle lansiwyd Canllawiau Newydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gomisiynu llety.
- **Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector**. Buom yn gweithio i sicrhau bod y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i Chod yn diwallu anghenion pobl ifanc ag anabledd dysgu.
- **Consortiwm Anabledd Dysgu**. Cydweithio â Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan a Mencap Cymru.
- **Grŵp Cynghori Gweinidogol Anabledd Dysgu**. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyngor i'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Yn arbennig, roeddem yn croesawu cyhoeddi rhaglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, a buom yn gweithio ar sut y byddwn yn cynorthwyo ar waith yn y cynllun.
- **Fforwm Cydraddoldeb Anabledd**. Grŵp o sefydliadau ar draws y trydydd sector sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi cyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl anabl.
- **Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru**. Grŵp sy'n cynnwys y pum sefydliad ymbarél anabledd yng Nghymru.
- **Y Cyngor ar gyfer Plant Anabl (Y DU)**. Cysylltu polisi'r DU â pholisi Cymru a dysgu ar y cyd a rhannu arfer da.
- **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Casineb Trosedd**. Asiantaethau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio gydag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol (CPS, Y Gwasanaeth Prawf, Yr Heddlu) i roi diwedd ar drosedd casineb.

# Ein blwyddyn mewn rhifau

## Herio a cynrychioli

Wedi rheoli **4** cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

Wedi gweithio ar **21** maes polisi

## Hawdd ei Ddeall Cymru

**43** dogfen hawdd ei ddeall

**25** cleient

## Hyfforddiant a digwyddiadau

**31** cwrs hyfforddiant

**305** cynrychiolwyr wedi'u hyfforddi

**194** o bobl yn Dyfodol pob un ohonom ni

**280** cinio poeth yn Dyfodol Pawb

## Hysbysu

Lansiwyd **1** gwefan newydd

**23,717** defnyddwyr y wefan

**5,898** dilynwyr Twitter

**3,115** hoffwyr ar Facebook

## Engage to Change

**120** lleoliadau gwaith

**74** person ifanc mewn cyflogaeth parhaus

Wedi ymgysylltu â **145** o gyflogwyr

## Love Life

Wedi hyfforddi **2** hyfforddwyr

**84** pobl wedi'u hyfforddi

## Rhwydwaith gweithio ar y cyd gyda rhieni

**5** cyfarfod rhwydwaith cefnogi ledled Cymru

## Ffrindiau Gigiau

**12** o Ffrindiau Gigiau wedi'u paru

# Ffrindiau Gigiau

2018 - 2020

ffrindiaugigigiau.org.uk

/ffrindiaugigiau

@FfrindiauGigiau

**Mae Ffrindiau Gigiau yn paru oedolion ag anabledd dysgu gyda gwirfoddolwyr sy'n rhannu'r un diddordebau fel y gallant fynd i gigiau a digwyddiadau gyda'i gilydd.**

Crëwyd y cynllun cyfeillio arloesol hwn gan yr elusen o Loegr, Stay Up Late. Diolch i gyllid gan Gymdeithas Tai First Choice rydym wedi gallu dod â Ffrindiau Gigiau i Gymru, gan ddechrau gyda'n safle prosiect cyntaf yng Nghaerdydd, gyda chynlluniau i ehangu ar draws y wlad.

Drwy gydol y flwyddyn, bu i ni baru a chefnogi 12 cyfeillgarwch Ffrindiau Gigiau newydd, hyfforddi 16 o wirfoddolwyr, a datblygu partneriaethau newydd gwerthfawr sydd wedi helpu i wella sut mae pobl ag anabledd dysgu yn cyrchu'r celfyddydau, cerddoriaeth fyw a hamdden yng Nghymru.



Yn y cyfamser, treuliodd ein Ffrindiau Gigiau y flwyddyn yn mwynhau cyngherddau, gwyliau, gemau chwaraeon, nosweithiau clwb, theatr, a ffurfio cyfeillgarwch newydd - llawer o brofiadau nad ydynt wedi gallu eu gwneud o'r blaen.

Rydym wrth ein bodd bod First Choice wedi cytuno i ariannu ail flwyddyn, gan ein galluogi i ehangu i ardaloedd newydd sydd wedi mynegi galw mawr am Ffrindiau Gigiau - Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, a Bro Morgannwg.

> "Roedd Katie am gwrdd â grŵp o ffrindiau ar gyfer ei phen-blwydd yn 20 mlwydd oed. Doedd hi ddim am i ni fod yn rhan o'r cynllunio. Soniodd am ei syniad i'r grŵp Ffrindiau Gigiau a dyna ni, trefnwyd digwyddiad. O'r eiliad y cyrhaeddodd y person cyntaf roedd hi'n sgwrsio, yn chwerthin, yn cofleidio'i ffrindiau ac yn cael amser gwych yn gyffredinol. Roedd hi wedi treulio'r diwrnod blaenorol yn trefnu ei dillad, yn cael ei gwallt wedi'i wneud, yn dewis cacen pen-blwydd - yn union fel ei holl gyfoedion.
>
> Menyw ifanc yw hon a fyddai weithiau'n treulio oriau lawer yn gwrthod siarad â phobl eraill, ac yn dibynnu arnom ni, ei rhieni, i ragweld ei dymuniadau a'i theimladau. Allwn ni ddim rhoi digon o glod i'r hyn mae Ffrindiau Gigiau yn ei wneud i bobl ifanc fel Katie. Diolch bawb am wneud hwn yn un o'i phenblwyddi gorau hyd yma!"
>
> Philippa a Steve, rhieni Katie

## Lansio Ffrindiau Gigiau yng Ngŵyl y Llais

Roeddem yn falch iawn o lansio Ffrindiau Gigiau yn swyddogol yng Ngŵyl y Llais, yr ŵyl gelfyddydau ryngwladol sy'n cael ei rheoli gan Ganolfan Mileniwm Cymru.

Diolch i arian gan Gronfa'r Loteri Fawr, fe wnaethon ni gomisiynu Theatr Hijinx i lwyfannu ymyriad yn ystod noson gala agoriadol yr ŵyl. Fe wnaeth actorion oedd yn chwarae pobl oedd yn cael eu cefnogi ar noson allan dorri ar draws digwyddiad a phrotestio yn erbyn cael eu gorfodi i adael cyn 9pm.

Dangosodd yr ymyriad pa mor anodd y gallai fod i bobl ag anabledd dysgu i aros yn hwyr a mwynhau digwyddiadau yn y nos, a sut y gall Ffrindiau Gigiau fod yn help mawr.








## Senedd Ieuenctid Cymru

2018 - 2020

**Roeddem yn falch iawn bod ein cais i gefnogi dau o bobl ifanc anabl i fod ymhlith Aelodau Senedd Ieuenctid cyntaf Cymru yn llwyddiannus.**

Fe wnaethon ni gynllunio proses hygyrch i ethol y ddau unigolyn ifanc, a enwebwyd gan ein haelodau. Fe wnaeth ein pobl ifanc a ddewiswyd, Anwen a Katie, yn bresennol yn Senedd Ieuenctid Cymru gyntaf yng Nghaerdydd, a rhoddodd y ddwy eu hareithiau agoriadol ar y pynciau o'u dewis yn y Siambr yn y Senedd

Roedd yn ddiwrnod hynod o falch i Anwen, Katie, eu ffrindiau, teulu ac Anabledd Dysgu Cymru. Rydyn ni'n sicr mai'r dechrau'n unig yw hwn wrth iddynt greu hanes i bobl ifanc eraill yng Nghymru.



SENEDD IEUENCTID CYMRU / WELSH YOUTH PARLIAMENT
SEFYDLIAD PARTNER
PARTNER ORGANISATION

# Love Life

2016 - 2019

Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union




**Wedi'i ariannu gan Erasmus+, mae ein prosiect Love Life yn gweithio gyda chwe phartner ledled Ewrop i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar berthnasoedd a rhywioldeb dan arweiniad hyfforddwyr ag anabledd dysgu.**

Ym mis Tachwedd treuliodd ein tîm o hyfforddwyr arbenigol wythnos yn Rotterdam yn datblygu cwrs hyfforddi a fydd yn cael ei gyflwyno i ddarparwyr cymorth yng Nghymru ar ôl iddynt ddychwelyd. Roedd y cwrs yn cynnwys hawliau, sut i ddechrau sgwrs, gemau ar brofiadau pobl eu hunain a rhai sesiynau dysgu rhyngweithiol.

Bu'r hyfforddiant yn llwyddiant, gyda dros 80 o gyfranogwyr yn cael eu hyfforddi, a byddant yn cael eu cyflwyno ymhellach.

Esmée Fairbairn FOUNDATION



# Gweithio ar y cyd â Rhieni

2016 - 2019


**Wedi'i ariannu gan Sefydliad Esmee Fairbairn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chomisiwn Anableddau Dysgu'r Alban, ac Athrofa Norah Fry ym Mhrifysgol Bryste, i wella polisi ac arferion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.**

Fe wnaeth ein rhwydweithiau Gogledd a De Cymru gyfarfod drwy gydol y flwyddyn ac roedden nhw'n gallu rhannu eu straeon a dylanwadu ar newid. Mae cymorth i rieni sydd ag anabledd dysgu bellach yn flaenoriaeth yn rhaglen newydd Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru.

Buom yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Chynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) i gyflwyno hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol CAFCASS. Bydd yr hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion mae rhieni sydd ag anabledd dysgu yn eu hwynebu wrth fynd drwy'r system llysoedd, o ran cadw eu plant gyda nhw.

Fe wnaethom dendro, gyda phartneriaid, ar gyfer ymchwil i sut a pham mae nifer uchel o blant sy'n derbyn gofal yn blant â rhiant ag anabledd dysgu. Er bod ein tendr wedi bod yn aflwyddiannus, yr ydym wedi bod yn gweithio gyda'r ymchwil gyda Phrifysgol Oxford Brooke's, a enillodd y tendr.

# Ein staff




* Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd gyda Rhieni (RGCGR)

* Zoe Richards: Rheolwr Pobl Ifainc a Gofalwyr / Rheolwr/wraig Prosiect (Tan 21/03/19)

# Ein hymddiriedolwyr

Etholwyd: Tachwedd 2016

| Cynrychiolwyr Aelodau Cyflawn | | |
|---|---|---|
| **Cymuned o Ddiddordeb** | **Ymddiriedolwyr** | **Yn cynrychioli** |
| **Darparwyr Oedolion** | Mandy Evans<br>Steve Cox *(Trysorydd)* | Mirus<br>Perthyn |
| **Hunan Eiriolaeth** | Dawn Gullis<br>*1 cadair wag* | Cardiff People First |
| **Rhieni a Gofalwyr** | Jacqui Caldwell<br>*1 cadair wag* | Denbighshire VSC |
| **Darparwyr Plant** | Denise Inger | SNAP Cymru |
| **Eiriolaeth Annibynnol/Dinesydd** | *1 cadair wag* | |
| **Cyflogaeth gyda Chefnogaeth** | Kathy Rivett | Elite |
| **Darparwyr Cymorth i Deuluoedd** | 1 *cadair wag* | |
| **Dolenni DU** | 1 *cadair wag* | |
| **Seddi Agored** | | |
| **Unigolion â diddordeb** | Phil Madden *(Cadeirydd)*, Steve Barnard | |
| **Ymgynghorydd** | Sian Owen, Steve Beyer (appointed 23/01/19) | |


# Ein haelodau

| | Gogledd Cymru | Canolbarth/ Gorllewin Cymru | De Cymru | Tu Allan i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| **Llawn** | 9 | 8 | 39 | 1 |
| **Cysylltiol** | 15 | 24 | 47 | 9 |


## Dod yn aelod o Anabledd Dysgu Cymru

Mae aelodaeth o Anabledd Dysgu Cymru am ddim. Ymunwch ag Anabledd Dysgu Cymru nawr er mwyn i ni gael gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau plant, pobl ifainc ac oedolion ag anabledd dysgu. Ffoniwch ni ar 029 2068 1160 neu ymunwch ar-lein ar ein gwefan: www.ldw.org.uk/amdanom-ni/dod-yn-aelod.

# Sut rydyn ni'n gwario ein harian



| Arian a dderbyniom eleni | |
|---|---|
| Cymhorthdal Llywodraeth Cymru | £297,600 (15.2%) |
| Prosiectau DU | £1,413,026 (71.5%) |
| Prosiectau Ewropeaidd | £140,515 (7.1%) |
| Hyfforddi a Digwyddiadau | £48,497 (2.4%) |
| Ymgynghoriaeth, rhwydweithiau a gwasanaethau a gynhaliwn | £67,970 (3.4%) |
| Aelodaeth a chyhoeddiadau | £0 (0.0%) |
| Rhoddion | £5,776 (0.3%) |
| Llog Banc | £2,400 (0.1%) |
| **Cyfanswm** | **£1,975,784** |



| Arian a wariom eleni | |
|---|---|
| Staff a chostau teithio | £487,382 (24.4%) |
| Grantiau i bartneriaid prosiect y DU | £1,183,489 (59.3%) |
| Grantiau i bartneriaid prosiect Ewrop | £116,330 (5.8%) |
| Cyrsiau a chynadleddau | £33,824 (1.7%) |
| Gofalu am ein hadeiladau | £40,408 (2.0%) |
| Digwyddiadau prosiectau | £64,159 (3.2%) |
| Rhedeg y swyddfa | £46,279 (2.3%) |
| Costau gwaith llawrydd | £4,775 (0.2%) |
| Llais | £0.00 (0.0%) |
| Cyfieithu | £8,468 (0.4%) |
| TAW na ellir ei ad-hawlio | £1,544 (0.1%) |
| Ffioedd Archwilio | £5,250 (0.3%) |
| Dibrisiant | £1,250 (0.1%) |
| Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr | £3,949 (0.2%) |
| **Cyfanswm** | **£1,997,107** |

## Canlyniad diwedd blwyddyn:

- £21,323

Mae'r diffyg yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £16,611 a diffyg cyfyngedig o £37,934.

## Photo competition

We ran a photo competition with Able Radio giving people the opportunity to express their hopes and dreams for the future.

75 people from across Wales entered, and our judges had a hard time picking winners from a high calibre of entries. We announced the winners at our annual conference, All our futures, and we are looking forward to welcoming back the overall winner, Tristan Lewis, in 2019 as a guest judge.

---

## Cystadleuaeth ffotograffau

Fe wnaethom gynnal cystadleuaeth ffotograffau gydag Able Radio gan roi cyfle i bobl fynegi eu gobeithion a'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol.


Fe wnaeth 75 o bobl o bob cwr o Gymru roi cynnig arni, ac roedd ein beirniaid wedi cael amser caled yn dewis enillwyr o blith ymgeiswyr o safon uchel. Fe wnaethon ni gyhoeddi'r enillwyr yn ein cynhadledd flynyddol, Dyfodol pob un ohonom ni, ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r enillydd cyffredinol, Tristan Lewis, yn ôl yn 2019 fel beirniad gwadd.



Tristan Lewis
'Follow Your Dreams'
'Dilyn Dy Freuddwydion'



Jack Goode
'King of the Cathedral'
'Brenin yr Eglwys'



Sophie Maddick
‘Selfie’
‘Hunlun’



Thomas Jones
‘Handyman at Work’
‘Crefftwr Wrth ei Waith’



Kathryn Gallo
‘My Own Spot’
‘Fy Man Fy Hun’



Sarah Duke
‘Girls Just Wanna Have Fun’
‘Mae Merched am Gael Hwyl’